# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE FOR BUSINESS DYDD MAWRTH, 17 TACHWEDD 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PA Davies | JE Lewis | RM James | RJ Collins |
| B Jones | G Thomas | AA Pucella | JE Williams |
| MJ Kearn | A Hussain | TH Beedle | JR McCarthy |
| A Williams | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |
| Will Lane | Rheolwr Gweithredol – Cydwasanaethau Rheoleiddio |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 51. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

## 52. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 06/10/2020, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

## 53. POLISI CERBYDAU HACNI/CERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r adroddiad sy'n:

- Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r oedran hynaf y gellir trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat am y tro cyntaf, ac ar ôl eu trwyddedu, pa mor aml y cânt eu profi;
- Ystyried diwygiad i'r Canllawiau Polisi Oedran (APG) mewn perthynas â'r oedran hynaf y gellir trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat am y tro cyntaf;
- Ystyried cynnig i ddiwygio amlder profi cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat
- Ystyried cynnig i ddiwygio'r weithdrefn profi a chydymffurfio ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod yr ysgogiad ar gyfer adolygu'r polisi yn dod o'r fasnach leol a nododd fod y polisi presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gerbydau a gyflwynwyd er mwyn i'w trwydded gyntaf fod yn newydd neu bron yn newydd, yn rhoi baich economaidd sylweddol ar y fasnach, tra'n darparu budd ymylol o ran diogelwch y cyhoedd.

Eglurodd fod y polisi presennol ynghylch oedran cerbydau wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu ar 10 Mawrth 2008.

Amlinellodd fod y polisi presennol yn nodi y dylid cyflwyno ymgeiswyr ar gyfer trwyddedu cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat i'r Cyngor am y tro cyntaf o fewn 14 diwrnod i gofrestriad cyntaf y cerbyd gyda'r DVLA. Ni ddylai'r milltiroedd ar adeg y cais fod yn fwy na 500 milltir felly roedd y rhan fwyaf o gerbydau'n newydd pan gawsant eu trwyddedu am y tro cyntaf. Manylwyd ar fanylion y polisi oedran presennol yn Atodiad A i'r adroddiad.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod unrhyw newidiadau i'r polisi oedran yn cael effaith ar y drefn profi cerbydau. Gyda'r rhan fwyaf o gerbydau'n newydd wrth gyflwyno'r cais cyntaf, mae'r polisi cyfredol yn gofyn am 2 brawf y flwyddyn ar gyfer cerbydau hyd at 5 mlwydd oed, a 3 phrawf y flwyddyn ar gyfer cerbydau dros 5 oed.
Profwyd cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yng Nghyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau Tŷ Richard Thomas, a ddefnyddir ar y cyd gan Heddlu De Cymru a'r Cyngor fel yr orsaf brofi gymeradwy ar gyfer cerbydau trwyddedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn ymateb i safbwyntiau masnach drwy holiadur, gan ofyn am farn masnach a'r cyhoedd ar newidiadau arfaethedig i'r polisïau oedran a phrofi ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Cafodd copi o'r holiadur ei gynnwys yn Atodiad B a manylwyd ar yr ymatebion yn Atodiad C. Rhoddodd grynodeb o'r 19 o ymatebion i'r Pwyllgor y manylwyd arnynt yn adran 4.7 yr adroddiad.

Amlinellodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yr amrywiadau rhwng oedrannau'r cerbydau a drwyddedwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gymharu â'r rhai a drwyddedwyd mewn awdurdodau lleol eraill yn Ne Cymru fel yr amlinellir yn adran 4.9 yr adroddiad.

Ychwanegodd y dylai'r consensws y dylai'r rhesymau dros bolisi oedran, fel gwell cysur a gwell safonau diogelwch, fod yn berthnasol i bob cerbyd salŵn, a bysiau mini (Dosbarth 1) ond y byddai'r cerbydau hynny sydd â lifft ôl awtomataidd parhaol yn cael eu derbyn ar gyfer trwyddedu cyntaf hyd at 10 oed (Dosbarth 2).

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu y cynigiwyd y byddai cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat hyd at 10 oed yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn. Byddai cerbydau sy'n 10 oed neu'n hŷn yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn. Er mwyn gweithredu'r cynnig hwn, byddai'r canlynol yn cael eu cynnwys yn amodau trwydded y cerbyd hacni a'r cerbyd hurio preifat:

*"Profi cerbydau*

a) *Bydd cerbydau hyd at 10 oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf, neu'r defnydd cyntaf/dyddiad cynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, yn cael ei brofi ddwywaith y flwyddyn.*
b) *Bydd cerbydau sy'n 10 oed neu'r hŷn o ddyddiad y cofrestriad cyntaf, neu'r defnydd cyntaf/dyddiad cynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, yn cael ei brofi deirgwaith y flwyddyn.*

Er mwyn hwyluso'r newidiadau arfaethedig, eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu y bydd amodau'r cerbyd yn cael eu hail-rifo. Ceir copi o amodau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat wedi'u diweddaru yn Atodiad D ac yn Atodiad E yn y drefn honno.

Ychwanegodd fod Swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion Cyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd Tŷ Richard Thomas i gytuno ar ffordd ymlaen i ddarparu tystysgrifau

MOT, ynghyd â phrotocol ar gyfer profi nodweddion ychwanegol sy'n unigryw i gerbydau trwyddedig. Cyfeirir at y prawf olaf hwn fel y Ffurflen Datganiad Addasrwydd sydd ynghlwm yn Atodiad F. Argymhellwyd hefyd bod yr awdurdod yn mabwysiadu'r Safonau Arolygu Cenedlaethol - Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a oedd ynghlwm yn Atodiad G. Mae'r canllaw arfer gorau hwn yn darparu gofynion profi ychwanegol i'r rhai yn Llawlyfr Arolygu MOT. Cynigiwyd y dylai'r drefn newydd o gyhoeddi Tystysgrif MOT a ffurflen Datganiad addasrwydd ddod i rym ar 1 Chwefror 2021.

Rhoddodd Rheolwyr y Tîm Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y goblygiadau ariannol mewn perthynas â'r newidiadau a gymeradwywyd gan bwerau dirprwyedig o dan y cyfeirnod CMM-TE-20-010. Dywedodd y byddai ffi'r prawf yn cynyddu o £46 i £48.50.

Gofynnodd Aelod a oedd capasiti o ran staffio, h.y. ar ffurf ffitwyr, i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn gwasanaethu profion y byddai ei angen oherwydd y newid arfaethedig. Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod capasiti o'r fath.

Cododd Aelod bryderon ynghylch oedran posibl rhai cerbydau ac a fyddent yn risg tân ac yn addas ar gyfer y ffordd o ran ardaloedd eraill, o ran y tu mewn a chyflwr allanol cerbydau o'r fath.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu nad oedd yr Adran Drafnidiaeth yn argymell gosod terfyn uchaf ar oedran, oherwydd bod safonau cerbydau yn llawer uwch y dyddiau hyn ac felly, mewn llai o berygl o fod ag unrhyw broblemau mecanyddol mawr oherwydd oedran, fel y digwyddodd yn y blynyddoedd a fu. Roedd hyn yn golygu bod llawer o gerbydau sy'n hŷn na 10 mlynedd, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r rhain, yn dal yn ddiogel i fod ar y ffordd am beth amser ar ôl cyfnod o 10 mlwydd oed. Ychwanegodd y byddai diwygio o'r fath yn y polisi yn caniatáu i weithredwyr tacsis a hurio preifat adnewyddu eu cerbyd yn amlach, yn hytrach na bod yn ofynnol iddynt brynu cerbyd newydd.

Gofynnodd aelod a oedd diffoddwyr tân neu becynnau cymorth cyntaf yn bresennol mewn cerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat ac a oedd yn ofyniad cyfreithiol i yrwyr eu gosod yn eu cerbydau.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod hyn mewn gwirionedd yn ofyniad cyfreithiol a bod yr uchod yn destun hapwiriadau gan y swyddogion gorfodi trwyddedu.

Cododd nifer o Aelodau eu pryderon cyffredin yn ymwneud ag oedran cerbydau a'r traul posibl ar y seddau, y corff, a'r mecaneg.

Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol fod y polisi yno i arwain Aelodau i wneud penderfyniad, ond roedd yn rhaid gwneud pob penderfyniad ar gyflwr addas cerbyd ar gyfer cerbyd hacni neu logi preifat, yn ôl ei deilyngdod ei hun, gydag aelodau'n rhoi disgresiwn pan oeddent yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny o ran caniatáu neu wrthod cerbyd. Ychwanegodd fod hyn yn berthnasol i Is-bwyllgor wrth ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth archwilio cerbydau i gael trwydded.

Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol Cydwasanaethau Rheoleiddio ei bod yn gyffredin ymysg awdurdodau lleol i beidio â chael terfyn oedran uchaf ar gerbydau. Ychwanegodd fod caniatáu i gerbydau hŷn gael eu trwyddedu yn fuddiol i'r diwydiant gan fod gyrwyr, yn hytrach na phrynu cerbyd newydd, yn tueddu i adnewyddu eu cerbydau presennol yn amlach, a olygai fod llai o faich economaidd arnynt. Ychwanegodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu mai argymhelliad canllawiau 'arfer gorau' yr Adran Drafnidiaeth oedd yn nodi nad argymhellwyd i gerbydau gael terfyn oedran uchaf, gan gynnwys o ran awdurdodau lleol yn ystyried ceisiadau am roi trwyddedau ar gyfer cerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat.

Cododd Aelod fater yswiriant ar gyfer y cerbydau gan ddweud ei fod yn credu y dylai pob cerbyd tacsi a hurio preifat gael yswiriant cwbl gynhwysfawr.

Esboniodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir nad oedd yn ofyniad cyfreithiol cael yswiriant cwbl gynhwysol. Diogelu trydydd parti oedd y gofyniad cyfreithiol sylfaenol i bob gyrrwr, yn hyn o beth.

Gofynnodd Aelod i'r canllawiau gynnwys cyflwr seddi yn ogystal â gwregysau diogelwch.

Ailadroddodd Aelod y pwynt ynglŷn ag archwilio seddi a rhannau eraill o'r cerbydau sy'n agored i'w draul a dywedodd y gallai aelodau wrthod cais os oeddent o'r farn bod yr ansawdd yn anfoddhaol. Ychwanegodd bod cerbydau wedi cael eu gwrthod yn y gorffennol am y rhesymau hyn, felly ni fyddai newid yn y polisi yn effeithio ar hyn.

Pan fyddai cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol oherwydd Covid yn cael eu llacio, gofynnodd Aelod a allai'r Pwyllgor ymweld â Gweithdy'r Fflyd lle byddai cerbydau'n cael eu harchwilio a'u gwasanaethu.

Atebodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu y byddai hyn yn cael ei drefnu pan oedd yn ddiogel gwneud hynny.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn:

- Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r canllawiau polisi oedran fel bod yn rhaid i gerbydau a gyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf, o 1 Chwefror 2021, fod yn iau na 5 mlwydd oed o ddyddiad cofrestru am y tro cyntaf; neu'r defnydd cyntaf/dyddiad cynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, ac eithrio cerbydau fel bysiau mini sydd â lifftiau ôl awtomataidd parhaol a all fod hyd at 10 oed pan y'u trwyddedir am y tro cyntaf.

- Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio amlder y profi fel y bydd cerbydau hyd at 10 oed yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn o 1 Chwefror 2021 ymlaen a bydd cerbydau sy'n 10 oed neu'n hŷn yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn.

- Cymeradwyo'r amodau diwygiedig a ddaw i rym o 1 Chwefror 2021 ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, fel y nodir yn Atodiadau D ac E.

- Cymeradwyo'r Ffurflen Datganiad Addasrwydd a nodir yn Atodiad F, i'w defnyddio o 1 Chwefror 2021.

- Mabwysiadu Safonau Arolygu Cenedlaethol y Gymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat fel y nodir yn Atodiad G, o 1 Chwefror 2021.

- Awdurdodi'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol i baratoi (ac wedyn diwygio os oes angen) y prosesau gweinyddol manwl ar y cyd â Rheolwr Gweithdy'r Fflyd yn Nhŷ Richard Thomas.

- Cymeradwyo'r cynnig bod ceisiadau sy'n dod o dan y canllaw polisi a nodir yn (i) uchod yn cael eu trin gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol o dan y Cynllun Dirprwyo i swyddogion. Yn ogystal, cymeradwyo'r cynnig, mewn achos lle mae ymgeisydd yn methu â chyflwyno cais i adnewyddu trwydded cyn y dyddiad dod i ben, a bod y cais y tu allan i'r canllawiau polisi, hepgorir y gofyniad i Is-bwyllgor ymdrin â'r cais, ar yr amod bod

y cais yn dod i law o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad dod i ben. Bydd Is-bwyllgor yn ymdrin â phob achos arall sy'n syrthio y tu allan i'r canllawiau polisi.

54. EITEMAU BRYS

Dim